

Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 14
Chwefror 2022

Mawrth 2022



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chwched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y ffordd y mae cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU yn effeithio ar Gymru o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010*. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 14 Chwefror 2022, gwnaethom drafod dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Dyma'r cytundebau a drafodwyd gennym:
 - DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch Trwyddedau Ymgymeriadau Rheilffyrdd mewn perthynas â Gwasanaethau Trafnidiaeth Rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel; a
 - DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch Trwyddedau Gyrru Trenau a Thystysgrifau Cyflenwol mewn perthynas â Thrafnidiaeth Rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel
7. Gwnaethom gytuno i nodi'r ddau gytundeb er gwybodaeth. Nodir rhagor o fanylion am y cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Chwefror 2022

2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch Trwyddedau Ymgymeriadau Rheilffyrdd mewn perthynas â Gwasanaethau Trafnidiaeth Rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 27 Ionawr 2022. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 8 Mawrth 2022.

9. Nod y cytundeb hwn yw darparu bod y ddwy ochr yn cydnabod trwyddedau gweithredwyr rheilffyrdd rhwng y DU a Ffrainc yn rhannau'r DU a Ffrainc o Dwnnel y Sianel, a hyd at y gorsafoedd cyntaf wrth groesi'r ffin yn nhiriogaeth y DU a thiriogaeth Ffrainc.

10. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn datgan y bydd y cytundeb yn rhoi sicrwydd, eglurder a hyder hirdymor i weithredwyr rheilffyrdd trawsffiniol, ac y bydd yn lleihau beichiau gweinyddol. Heb y cytundeb, byddai'n ofynnol i weithredwyr rheilffyrdd gael dwy drwydded, un wedi'i dyroddi yn yr UE a'r llall wedi'i dyroddi yn y DU.

11. Mae'r adran ar ddatganoli sydd fel arfer wedi'i chynnwys mewn Memoranda Esboniadol i gytundebau rhyngwladol ar goll o'r Memorandwm hwn. Felly, nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys a ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r cytundeb hwn, ac ynghylch barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd.

12. Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth, a'r ffaith bod gwybodaeth sy'n ymwneud â datganoli, sydd fel arfer yn cael ei chynnwys fel mater o drefn, ar goll.

DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch Trwyddedau Gyrru Trenau a Thystysgrifau Cyflenwol mewn perthynas â Thrafnidiaeth Rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel

13. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Chwefror 2022. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 14 Mawrth 2022.

14. Nod y cytundeb hwn yw darparu ar gyfer cydnabod trwyddedau gyrrwyr trên a ddyroddir yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac ym Mhrydain Fawr rhwng y DU a Ffrainc yn rhannau'r DU a Ffrainc o Dwnnel y Sianel, a hyd at y gorsafoedd cyntaf wrth groesi'r ffin yn nhiriogaeth y DU a thiriogaeth Ffrainc.

15. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn datgan y bydd y cytundeb yn rhoi sicrwydd, eglurder a hyder hirdymor i weithredwyr rheilffyrdd trawsffiniol, ac y bydd yn lleihau beichiau gweinyddol.

Heb y cytundeb, byddai'n ofynnol i yrwyr trênn sy'n gweithredu yn Nhwnnel y Sianel gael dwy drwydded, un wedi'i dyroddi yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r llall wedi'i dyroddi ym Mhrydain Fawr.

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi'r ffaith nad oes unrhyw oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig yn sgil y cytundeb, gan fod y gyfundrefn drwyddedu ar gyfer gyrwyr trênn yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl. Yn sgil hynny, ni ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig wrth ei ddrafftio.

17. Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.